

amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon I

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Efynglau

Cofiwch mai un llythren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Stori I Iesu'n Dysgu.




DARLLENWCH
Luc 10: 38-42

**Mae'r stori yma'n
sôn am**
cymryd amser i
wrando ar Iesu

Roedd Martha wedi gofyn i Iesu ddod i gael bwyd yn ei thŷ hi. Roedd hi eisiau gwneud ei gorau iddo gan ei fod yn ffrind arbennig.

Ond pan gyrhaeddodd Iesu, roedd Martha'n rhy brysur i gadw cwmni iddo. Roedd llawer o bethau ganddi i'w gwneud. Ond eisteddodd Mair, chwaer Martha, gyda Iesu yn gwranddo arno ac yn dysgu ganddo.

Cyn hir, roedd Martha wedi gwylltio. Doedd hi ddim yn deg bod Mair yn gadael iddi hi wneud y gwaith i gyd. Daeth Martha i mewn a dweud wrth Iesu am ofyn i Mair ei helpu hi!




Martha

Mair



Siaradodd Iesu'n garedig â Martha. Dywedodd wrthi nad oedd angen iddi fynd i'r holl drafferth a mynd i banic. Roedd Martha'n gwneud rhywbeth da, yn gwneud bwyd blasus i Iesu, ond roedd Mair yn gwneud rhywbeth gwell. Roedd hi'n eistedd i wrando ar Iesu.



Tynnwch linell i ddangos beth a wnaeth Mair a Martha.

Dysgu oddi wrth Iesu.

Rhy brysur i ddysgu.

Pwy wnaeth y peth gorau? Rhowch gylich o gwmpas yr ateb.

Martha

Mair

It is important for us also to make time to listen carefully to God, and to learn from His Word, the Bible.



DARLLENWCH
Ioan 11: 1-7 ac
17-44

Mae'r stori yma'n
sôn am:
Iesu'n gwneud
dyn oedd wedi
marw yn fyw
eto.

Stori 2 Iesu'n rhoi Bywyd.

Roedd Martha a Mair yn drist iawn. Roedd eu brawd, Lasarus, wedi marw. Ar ôl ei lapio mewn darnau o ddefnydd, roedd ei gorff wedi cael ei roi mewn ogof â charreg fawr ar draws ei cheg.

Bedwar diwrnod ar ôl i Lasarus gael ei gladdu, daeth Iesu i weld Mair a Martha. Roedd e'n drist iawn dros ei ffrindiau. Fe welodd e'r man lle cafodd Lasarus ei gladdu ac, wrth feddwl am ei ffrind, roedd e'n drist hefyd ac yn crïo.

Wedyn, gwnaeth Iesu rywbeth rhyfedd iawn. Gofynnodd i rai o'r bobl a oedd ger y bedd i symud y garreg fawr. Wedyn gwaeddodd "Lasarus, tyrd allan!" Roedd pawb yn synnu pan gerddodd Lasarus o'r bedd a'r darnau defnydd yn dal amdano.

Roedd Iesu wedi gallu gwneud Lasarus yn fyw eto. Roedd Mair a Martha'n gwybod yn awr fod Iesu'n ffrind arbennig iawn.

Gwnaeth Iesu i rywun oedd wedi marw ddod yn fyw eto. Beth oedd ei enw? L _____.

Lliwiwch y geiriau hyn a'r llun.

Dyweddodd Iesu, "Fi yw'r
atgyfodiad
a'r bywyd"

Ioan 11:25

Pan ddywedodd Iesu hyn, roedd yn dweud ei fod ef yn gallu rhoi bywyd sy'n para am byth. Mae'n rhoi bywyd i ni am byth yn y Nefoedd os ydyn ni'n credu ynddo.






DARLLENWCH
Ioan 12: 1-11

Mae'r stori yma'n sôn
am:
**Mair yn dangos ei
bod yn caru Iesu**

Stori 3 Caru Iesu

Ydych chi wedi rhoi anrheg i rywun i ddiolch iddyn nhw am fod yn garedig i chi?

Roedd Mair a Martha'n falch iawn fod Iesu wedi rhoi Lasarus yn ôl iddyn nhw. Roedden nhw eisiau diolch iddo felly dyma nhw'n trefnu swper arbennig iddo.



Daeth llawer o bobl i gael bwyd gyda nhw ond Iesu oedd yr un mwyaf pwysig.

Roedd Mair eisiau gwneud rhywbeth arbennig i ddangos ei bod yn caru Iesu. Roedd ganddi botel o bersawr drud a dyma hi'n arllwys y persawr dros draed Iesu. Yna fe sychodd hi draed Iesu â'i gwallt. Roedd arogl da y persawr yn llenwi'r tŷ. Roedd y persawr yn ddrud iawn ond gan fod Iesu mor arbennig, roedd Mair eisiau ei roi i gyd iddo ef.



**Rhowch gylch o
gwmpas y llun sy'n
dangos beth roddodd
Mair i Iesu.**

Lle roddodd Mair ei anrheg? Dros d _____ Iesu.

Pan fyddwn ni'n meddwl faint mae Iesu wedi'n caru ni a'i fod wedi rhoi ei fywyd i'n hachub ni, fe ddylen ni fod eisiau ei garu ef hefyd.

Lliwiwch yr adnod yma o'r Beibl.

“Yr ydym ni'n caru,
am iddo ef yn gyntaf
ein caru ni.”




DARLLENWCH
Luc 19: 28-44

Mae'r stori yma'n
sôn am:
lesu'n cael croeso


Stori 4 Edrych ar Iesu

Roedd Iesu'n dod i Jerwsalem am y tro olaf. Cyn hir byddai'n bryd iddo farw fel y gallai Duw faddau'n pechodau ni. Roedd Iesu'n gwybod sut roedd i fod i fynd i mewn i Jerwsalem felly gofynnodd i ddau o'i ddisgyblion ddod ag asyn iddo. Rhoddon nhw eu cotiau ar ei gefn ac eisteddodd Iesu ar gefn yr asyn. Wrth iddo fynd, roedd llawer o bobl yn taflu eu cotiau ar yr heol fel carped.


Ar gefn beth oedd Iesu? Rhowch gylch am yr ateb iawn.



Buwch



Cert



Asyn

Roedd y bobl wedi cynhyrfu ac roedden nhw'n moli Duw. Roedden nhw'n gwybod mai Iesu oedd eu Brenin arbennig.



“Bendigedig yw'r
hwn sy'n dod yn
enw yr Arglwydd!”

**Lliwiwch y llun a'r geiriau yr oedd
y bobl yn eu gweiddi**

Mae'n bwysig i ni roi croeso i Iesu yn ein bywyd. Pan wnawn ni hynny, mae Duw yn dweud ein bod yn rhan o'r teulu.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn